**MOLD TOWN COUNCIL**
**CYNGOR TREF YR WYDDGRUG**

Town Hall
Earl Road
Mold
Flintshire
CH7 1AB

Telephone: 01352 758532
Fax: 01352 755804

Neuadd y Dref
Ffordd yr Iarll
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 1AB

Ffôn: 01352 758532
Ffacs: 01352 755804

**www.moldtowncouncil.org.uk**

**Aelodau Cyngor Tref yr Wyddgrug**

17eg Mai 2024

Aelodau'r Cyngor

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gelwir trwy hwn i gyfarfod Cyngor Tref yr Wyddgrug a gynhelir am **6.00pm Ddydd Mercher 22ain Mai 2024** yn Neuadd Eglwys Dewi Sant, Lôn Dewi Sant. Bydd ar gael hefyd drwy Gynhadledd Fideo fel cyfarfod hybrid, gwelwch y ddolen isod.

Yn gywir iawn,

Clerc y Dref a Swyddog Cyllid

## AGENDA

### CYFRANOGAETH Y CYHOEDD

Mae ymrwymiad gan Gyngor Tref yr Wyddgrug i ymgysylltu â'r gymuned ac felly mae'n estyn croeso cynnes i aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod hwn. Mae Rheolau Sefydlog Cyngor Tref yr Wyddgrug yn caniatáu clustnodi 15 munud o dan yr eitem 'Cyfranogaeth y Cyhoedd' ar yr agenda gan ddyrannu hyd at 5 munud fesul pwnc.

Mae'n rhaid i'r rhai sydd eisiau cyfarch y cyfarfod o dan Gyfranogaeth y Cyhoedd:

- Roi gwybod i Glerc y Dref eu bod eisiau siarad, a hynny erbyn 4.30pm ar y diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor Tref.
- Gyfeirio pob sylw/cwestiwn at gadeirydd y cyfarfod.

Dylai aelodau'r cyhoedd nodi y bydd y cyngor ond yn trafod pynciau sydd wedi eu cyhoeddi ar yr agenda, a dim ond am y rhain y gall wneud penderfyniadau. Os na fydd unrhyw faterion yn cael eu codi, bydd cyfarfod y Cyngor Tref yn cychwyn am 6pm.

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

**2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

**Derbyn** unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb sy'n hysbys am eitemau ar yr agenda.

**3. CYHOEDDIADAU'R MAER**

**Derbyn** Cyhoeddiadau'r Maer

**4. COFNODION**

4.1 **Derbyn** Cofnodion Cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd ar 24ain Ebrill 2024 (ynghlwm) a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.2 **Derbyn** Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 7fed Mai 2024 (ynghlwm) a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.3 **Derbyn** Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 8fed Mai 2024 (ynghlwm) a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

**5. GOHEBIAETH**

**Nodi'r** ohebiaeth a ganlyn a dderbyniwyd a **chytuno** lle bo raid ar y camau gweithredu sydd eu hangen:

(i) E-bost a dderbyniwyd gan Mayors for Peace (mae dogfennaeth ychwanegol ynghlwm).
http://www.mayorsforpeace.eu/member-cities-directory/#

(ii) Llythyr a dderbyniwyd gan Aura Hamdden a Llyfrgelloedd – Arian Cyfatebol Mannau Chwarae.

(iii) Gwahoddiad i Gynhadledd Cymuned yr Wyddgrug

**6. ADRODDIAD SWYDDOG**

**Derbyn** adroddiad gan y Swyddog Digwyddiadau ac Ymgysylltiad Cymunedol (ynghlwm).

## 7. RHESTR WEITHREDU

**Nodi**'r diweddariadau i'r Rhestr Weithredu barhaus

## 8. ARFERION GORAU A CHYNHADLEDD CITTASLOW

**Nodi**'r wybodaeth isod a dderbyniwyd gan y Cyng. Catherine Francis Claydon-Hill

Rhoddodd Cittaslow International gyfle i'r Wyddgrug (fel tref Cittaslow) i gyflwyno fideo yn tynnu sylw at ein harferion gorau. Roedd hwn yn gais gweddol funud olaf ond llwyddais i gasglu ychydig o gynnwys at ei gilydd, oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar ein digwyddiadau a'n mentrau drwy gydol y flwyddyn, gyda'r nod o hyrwyddo cydlyniad cymdeithasol ac ysbryd cymunedol (un o werthoedd niferus Cittaslow). Bydd y fideo'n mynd i mewn i gystadleuaeth a bydd yn cael ei ddangos yng Nghynulliad Rhyngwladol Cittaslow yn yr Eidal ym mis Mehefin. Byddaf yn mynd i'r Cynulliad Rhyngwladol hwn. Gobeithio y bydd yn gyfle i gysylltu â chynghorwyr a chynrychiolwyr eraill o drefi Cittaslow, dysgu a rhannu arferion gorau, gan hefyd ddysgu rhagor am Cittaslow. Rwy'n edrych ymlaen at adrodd yn ôl am Gynulliad Cittaslow mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 9. 50fed PEN-BLWYDD CYNGOR TREF YR WYDDGRUG

**Nodi** a **chytuno** ar unrhyw gamau gweithredu mewn perthynas â Phen-blwydd Cyngor Tref yr Wyddgrug yn 50 oed.

Hoffai'r Cynghorydd Chris Bithell dynnu sylw'r cyngor at y ffaith mai'r flwyddyn hon yw 50fed Pen-blwydd Cyngor Tref yr Wyddgrug, a ddaeth i fodolaeth ym mis Mai 1974. Efallai yr hoffai'r Cyngor ddathlu'r pen-blwydd hwn a thynnu sylw at y pethau a gyflawnwyd ac sy'n dal i gael eu cyflawni gan y Cyngor Tref a'r gwahaniaeth y mae wedi'i wneud i fywydau a phrofiadau pobl leol yn ystod yr amser hwnnw.

## 10. AMODAU GORCHWYL Y PWYLLGOR CYLLID NEWYDD

**Trafod** a **chytuno** ar yr Amodau Gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Cyllid sydd newydd ei ffurfio.

## 11. CYNNIG A DDERBYNIWYD GAN Y CYNGHORYDD SARAH TAYLOR

Hoffai'r Cynghorydd Sarah Taylor GYNNIG bod canllawiau newydd yn cael eu creu i Gynghorwyr sy'n mynychu cyfarfodydd ar-lein.

## 12. GWEITHGOR Y MATRICS STAFFIO

**Cytuno** ar yr aelodau gweithgor ar gyfer y Gweithgor Matrics Staffio a **chytuno** ar ddyddiad/amser y cyfarfod cyntaf.

## 13. HYSBYSIAD AM BENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

**Nodi**'r adroddiad sydd ynghlwm.

## 14. CYFRIFON/TALIADAU

**Cymeradwyo**'r amserlenni sydd ynghlwm sy'n dangos y cyfrifon i gyd – Mis 10, gan nodi bod y taliadau'n cael eu gwneud yn unol â phwerau cynghorau lleol.

## 15. EITHRIO'R CYHOEDD A'R WASG

**Ystyried** eithrio'r cyhoedd a'r wasg o'r cyfarfod er mwyn caniatáu trafodaeth am faterion cyfrinachol

## 16. RHAN 2 – AMSER STAFFIO

**Derbyn** diweddariad ar lafar gan Glerc y Dref am Faterion Staffio a chytuno sut i symud ymlaen.

**Trafod** y dyfynbris a dderbyniwyd i ddiweddaru'r Adrannau Digwyddiadau ar Baneli Gwybodaeth i Dwristiaid.

## 17. RHAN 2 – AMODAU GORCHWYL AR GYFER Y PWYLLGOR PERSONÉL

**Trafod** a **chytuno** ar yr Amodau Gorchwyl arfaethedig newydd ar gyfer y Pwyllgor Personél i helpu gyda phroblemau staffio brys yn y dyfodol.

## 18. RHAN 2 – DYFYNBRISIAU AR GYFER BASGEDI CROG

**Trafod** a **chytuno** ar ddyfynbris ar gyfer gosod a gofalu am fasgedi crog drwy'r dref gyfan yn 2024 (Mae angen penderfyniad cyn y Cyfarfod Pwyllgor CDR newydd).

## 19. RHAN 2 – DYFYNBRISIAU YSWIRIANT

**Trafod** a **chytuno** ar ddyfynbris am yswiriant ar gyfer y Cyngor Tref.

## 20. RHAN 2 - WORKNEST

**Nodi**'r Cynnig Gwasanaeth a dderbyniwyd gan Worknest a **chytuno** ar y camau nesaf.

**NODWCH:**
Mae caniatâd i aelodau o'r wasg a'r cyhoedd ddod i'r cyfarfod hwn (ond nid i siarad oni bai bod hyn wedi'i drefnu o flaen llaw gyda Chlerc y Dref a'r Swyddog Cyllid).

**CYFARWYDDIADAU ZOOM**

**Ymuno â'r Cyfarfod Zoom**
**https://us02web.zoom.us/j/81441626690?pwd=bWk4ODRBb0F3c1JyR25UMldCaUdTZz09**

**ID y Cyfarfod: 814 4162 6690**
**Cyfrinair: 801316**